# Pecyn Swydd

## Cyfarwyddwr
## Ieuenctid a Chymuned

Mehefin 2026

Urdd Gobaith Cymru

# Rhagair

ANNWYL YMGEISYDD,

Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried ymuno â'n tîm yma yn Urdd Gobaith Cymru. Mae hon yn swydd allweddol wrth arwain ein strategaethau gwaith ieuenctid ac ymgysylltu cymunedol gan siapio cyfeiriad hirdymor y maes. Bydd y rôl hon yn apelio at arweinydd profiadol gyda gallu strategol cryf, ac angerdd dros ein cenhadaeth. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais.

YN GYWIR,

SIAN LEWIS,
PRIF WEITHREDWR



# Ein Cefndir

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol â dros 160,000 yn ymwneud gyda'r Urdd yn flynyddol rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Ers 1922, rydyn ni'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol yn eu cymunedau.

Wedi cynnig profiadau gwerthfawr i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy feysydd Chwaraeon, Celfyddydol, Preswyl, Dyngarol, Cymunedol ac Awyr Agored, Rhyngwladol, Prentisiaethau a Gwirfoddol; rydym wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru.

Rydym yn parhau i wasanaethu ein cynulleidfa graidd, ond yn cydnabod yr angen a'r awydd i estyn allan ymhellach i'r sawl sydd wedi eu tangynrychioli gan gynnwys plant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig , dysgwyr, pobl ifanc o gefndiroedd leiafrifoedd ethnig, ag anableddau ac sy'n perthyn i'r gymuned LHDTC+. Mae ein strategaeth URDD I BAWB yn ein harwain ar y gwaith yma.

Nid oes ei thebyg yn y byd ac rydym yn cael ein cydnabod yn rhyngwladol am arwain y ffordd yn narpariaeth ieuenctid llwyddiannus drwy iaith leiafrifol. Mae effaith ein gwaith yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

Heddiw, yr Urdd yw'r cyflogwr mwyaf drwy'r Iaith Gymraeg yn y trydydd sector yng Nghymru gyda gweithlu o 416 yn ogystal â throsiant blynyddol o £20M (74% ohono'n cael ei gynhyrchu'n fewnol). Mae'r Urdd yn creu gwerth economaidd o £45M yng Nghymru, gyda phob £1 o incwm a dderbynnir gan y sefydliad yn creu gwerth economaidd o £2.29 (Arad 2023). Urdd Gobaith Cymru yw'r un o'r mudiad ieuenctid cenedlaethol cyntaf i gyrraedd marc ansawdd lefel aur ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.









Urdd

# Ein Strategaeth

Ein nod ers y cychwyn cyntaf yw dod a'r Gymraeg yn fyw i blant a phobl ifanc Cymru, a gyda chynllun y Llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rydyn ni'n falch iawn o gefnogi'r uchelgais hwn gyda'n gwaith.

## Ein hamcanion strategol am y 5 mlynedd nesaf yw canolbwyntio ar y canlynol:

- Urdd i Bawb
  - cynnig darpariaeth gyson a theg sy'n croesawu amrywiaeth
- Ein cynnig
  - sy'n apelgar, cyfoes ac yn hyblyg
- Ein gwirfoddolwyr
  - y llwybrau cefnogi ac uwchsgilio
- Ein gweithlu
  - sy'n gymwys, hyblyg a chynhwysol
- Ein hamgylchedd
  - Urdd sy'n amgylcheddol gyfrifol
- Ein heiddo
  - sy'n apelgar ac yn addas at anghenion y dyfodol
- I ddarllen ein Cynllun Strategol yn llawn cliciwch yma.

# Ein Gwerthoedd

## Cefnogi:

- Ein haelodau
- Y defnydd o'r Gymraeg
- Lles plant a phobl ifanc
- Ein Gwirfoddolwyr
- Ein staff

## Parchu:

- Yr iaith
- Pob amrywiaeth a gallu
- Ein gilydd
- Ein diwylliant a diwylliannau eraill
- Ein gwahaniaethau

## Ymbweru:

- Dros Gymru a'n pobl
- I wneud gwahaniaeth
- Bod yn ddyngarol wrth eraill

Urdd

# Manteision Gweithio i'r Urdd

Mae gweithio i'r Urdd yn brofiad unigryw. Yn weithle ble mae 98% o staff yn dod ymlaen gyda'u cydweithwyr, 97% yn teimlo balchder o weithio i'r mudiad ac 97% yn mwynhau eu swyddi; mae'r teimlad o berthyn a diwylliant gweithio cadarnhaol yn amlwg yma.

## Eich Llesiant:

- 25 Diwrnod o wyliau (gan godi i 28 diwrnod ar ol 5 mlynedd o wasanaeth a 33 diwrnod wedi 10 mlynedd) a Gŵyl Banc yn ychwanegol pan mae'n disgyn
- Diwrnod Gwyliau ychwanegol i dy Ben-Blwydd
- Diwrnod gwyliau ychwanegol Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi
- Wedi 6 mis o wasanaeth, Diwrnod gwyliau ychwanegol i dy Iechyd a Lles
- Fforwm Staff gyda chynrychiolwyr o phob adran i drîn a thrafod materion cyfoes o fewn y mudiad
- Cynllun gweithio oriau hyblyg

## Eich Iechyd:

- Cynllun Cefnogi Iechyd a Lles Staff lle ceir mynediad i wasanaeth cwnsela, meddygol ac chyngor cyfreithiol a chyllidol yn rhad ac am ddim 24/7
- Cynllun Aberthu Cyflog seiclo i'r gwaith hyd at £3,000
- Prawf Llygaid am ddim
- Disgownt oddi ar aelodaeth gym a nwyddau iechyd, lles a ffitrwydd

## Eich Lles Ariannol:

- Yswiriant Bywyd gwerth 3 gwaith eich cyflog
- Cynllun pensiwn 6%
- Byddwn yn talu am eich aelodaeth proffesiynnol ynghlwm â gofynion eich swydd
- Disgownt hael i staff ar nwyddau siop yr Urdd, gwyliau yn y gwersylloedd, gweithgareddau cymunedol a chwaraeon, a thocynnau i'r Eisteddfod a'r Cwmni Theatr
- Disgownt oddi ar siopau a nwyddau brandiau mawr
- Cynllun gostyngiadau gampfa a nwyddau llesiant corfforol
- Disgownt oddi ar danysgrifiad KwikFit i gynnal a chadw eich cerbyd



# Gwybodaeth Allweddol am y swydd

**Teitl y Swydd:** Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned

**Lleoliad:** Un o brif swyddfeydd yr Urdd

**Adran:** Ieuenctid a Chymuned

**Cyflog:** RH2: £64,256 - £73,667 y flwyddyn

**Oriau Gwaith:** Llawn amser (35 awr yr wythnos)

**Cytundeb:** Parhaol

**Yn atebol i:** y Prif Weithredwr

**Rheolaeth Llinell:** Rheolwr Cymunedol y De a Rheolwr Cymunedol y Gogledd

## Prif Bwrpas y Swydd

Darparu arweinyddiaeth strategol i waith ieuenctid ac ymgysylltu cymunedol yr Urdd, gan sicrhau bod ein cynnig yn ymatebol, cynhwysol ac yn berthnasol i anghenion pobl ifanc Cymru heddiw ac i'r dyfodol yn unol â'n strategaeth Urdd i Bawb.

Bydd y deiliad swydd yn gyfrifol am siapio cyfeiriad hirdymor y maes, gan gryfhau effaith yr Urdd ar draws cymunedau ac adeiladu partneriaethau dylanwadol ar lefel leol a chenedlaethol.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

**Arweinyddiaeth Strategol**

- Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer gwaith ieuenctid a chymuned yr Urdd, yn unol â blaenoriaethau'r mudiad
- Sicrhau aliniad rhwng gweledigaeth yr Urdd a darpariaeth ar lawr gwlad, gan ddefnyddio mewnwelediad data, ymchwil a llais pobl ifanc i arwain penderfyniadau.
- Arwain adolygiad a datblygiad parhaus o fodelau darpariaeth i sicrhau effaith, ansawdd a chynaliadwyedd.
- Mynychu a chyfrannu'n strategol i Pwyllgor Cadeiryddion yr Urdd ac Uwch Dîm Rheoli'r Mudiad
- Creu a chynnal partneriaethau, datblygu perthnasau strategol a chynrychioli'r Urdd mewn cyfarfodydd gyda byrddau rhanbarthol a chenedlaethol
- Sicrhau aliniad strategol clir rhwng cyfeiriad yr adran a'i gyfraniad i waith celfyddydol ac Eisteddfodau'r Urdd ar y cyd gyda Cyfarwyddwr y Celfyddydau
- Cydweithio'n agos â Chyfarwyddwyr y Gwersylloedd i sicrhau bod cyfraniad gwaith yr adran yn cyfrannu'n fesuradwy at dargedau a blaenoriaethau strategol y gwersylloedd.
- Datblygu a Chydlynu Gwaith Ieuenctid Strategol

- Arwain ar gydweithio strategol gydag awdurdodau lleol, gan gryfhau rôl yr Urdd fel partner allweddol ym maes gwaith ieuenctid yng Nghymru.
- Meithrin perthnasoedd cryf gyda chyrff cyhoeddus, trydydd sector a phartneriaid cymunedol i gyd-greu gwasanaethau effeithiol.
- Dylanwadu ar agenda polisi ac arfer da ym maes ieuenctid, gan sicrhau bod llais yr Urdd a'i haelodau yn cael ei glywed.

**Rheoli ac Arwain**

- Rheoli cyllideb a throsiant sy'n arferol bron i £1.5m. Ar y cyd gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid, gosod a chadw at gyllidebau gan sicrhau systemau monitro effeithiol
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth perthnasol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r mudiad gan roi sylw priodol i weithdrefnau Diogelu Plant, Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data a'r Llawlyfr Staff
- Dan arweiniad y Pennaeth TG, datblygu systemau priodol sy'n ymateb i anghenion a chefnogi gwaith yr adran
- Darparu arweinyddiaeth eglur a chefnogol i dîm amrywiol o weithwyr a gwirfoddolwyr, ac yn benodol rheoli a chefnogi gwaith Rheolwr Celfyddydau y De a Rheolwr Celfyddydau y Gogledd
- Meithrin diwylliant o berfformiad uchel, dysgu parhaus a datblygu proffesiynol.
- Sicrhau bod strwythurau a phrosesau mewnol yn galluogi darpariaeth effeithiol ac arloesol.
- Paratoi a chydymffurfio i arolygon allannol e.e. Estyn

**Datblygiad a Thwf**

- Nodi a manteisio ar gyfleoedd i ehangu cyrhaeddiad ac effaith gwaith ieuenctid a chymunedol yr Urdd.
- Sicrhau ffynonellau cyllido amrywiol a chynaliadwy, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Datblygu modelau newydd o ddarpariaeth sy'n ymateb i anghenion newidiol cymunedau.
- Arwain ar newid, esblygiad a datblygiad y meysydd gwaith, gan feithrin hyblygrwydd a gallu i addasu ar draws y gwasanaeth a'r darpariaeth
- Ymgorffori diwylliant o arloesi a gwella parhaus mewn gwaith ieuenctid a chymuned.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

**Hanfodol:**

1. Profiad sylweddol o arwain ar lefel strategol
2. Profiad o ddatblygu partneriaethau a gweithio ar draws sectorau
3. Gallu i feddwl yn strategol ac i droi gweledigaeth yn weithredu
4. Sgiliau dylanwadu cryf, gyda'r gallu i feithrin ymddiriedaeth a chydweithio.
5. Gallu i arwain a llywio newid mewn ffordd gadarnhaol ac ystyriol, gan sicrhau bod pobl yn teimlo'n rhan o'r daith.
6. Profiad o ddenu cyllid drwy ffynonellau amrywio gan gynnwys drwy sector gyhoeddus a grantiau
7. Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg (ac yn ddelfrydol yn y Saesneg).
8. Arweinydd ysbrydoledig, hyblyg, arloesol ac yn ymatebol i gyfleoedd a heriau.
9. Parodrwydd i wasanaethu fel Rheolwr ar Ddyletswydd ar gyfer teithiau'r adran ar sail rota
10. Ymroddiad i werthoedd yr Urdd a hyrwyddo'r Gymraeg trwy bob agwedd ar y gwaith.

**Dymunol:**

1. Profiad sylweddol o arwain ar lefel strategol ym maes gwaith ieuenctid, cymuned neu faes perthnasol
2. Dealltwriaeth gadarn o dirwedd gwaith ieuenctid Cymru, gan gynnwys rôl awdurdodau lleol a phartneriaid statudol.
3. Bydd dealltwriaeth o strategaethau a thueddiadau y Celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt.
4. Dealltwriaeth o hawliau pobl ifanc a'r CCUHP (UNCRC)
5. Bydd cymhwyster Gwaith Ieuenctid yn ddymunol

**Gofynion Ychwanegol:**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

## Sut i wneud cais

I wneud cais, anfonwch:

- CV cyfredol
- Llythyr eglurhaol (uchafswm o 2 dudalen) yn nodi sut rydych yn bodloni manyleb y person

E-bostiwch eich cais i:
swyddi@urdd.org

Dyddiad cau:
Hanner Nos, 21.06.2026

Cyfweliadau:
Yn cael eu cynnal ar 01.07.2026